# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0495(FM) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ar 17 Mai 2005

**At: Ieuan Wyn Jones:**

Yng Nghyfarfod Llawn 17 Mai dywedasoch wrth y Prif Weinidog eich bod yn teimlo fod y gwasanaethau trenau rhwng Caergybi a Chaerdydd yn waeth yn awr nag yr oeddynt yn 1999. Gofynnodd y Prif Weinidog imi ymateb ichi yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian, ers mis Mai 2000, o dan adran 17 Deddf y Weinyddiaeth Drafnidiaeth 1919, ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol rhwng Caerdydd a Chaergybi drwy Wrecsam. Yn dilyn ymgynghori ag Aelodau Cynulliad y Gogledd a rhanddeiliaid allweddol, cyflwynwyd gwelliannau gan gyn-ddeiliad y rhyddfraint, Wales and Border Trains o amserlen Gaeaf 2002 ymlaen, yn dilyn nawdd gan Lywodraeth y Cynulliad.

O dan amserlen patrwm safonol arfaethedig Arriva Trains Wales, o fis Rhagfyr 2005 ymlaen, bydd gwasanaeth bob dwy awr yn rhedeg rhwng Caerdydd a Chaergybi, drwy Wrecsam. Bydd y gwasanaeth yn cychwyn o’r Gorllewin (Hwlffordd a Chaerfyrddin bob yn ail), gan wella’r daith rhwng gorllewin, de a gogledd Cymru yn sylweddol. Defnyddir trenau class 175. Bydd y gwasanaeth llawer gwell hwn yn ymgorffori arian gan Lywodraeth y Cynulliad ac arian o dan y rhyddfraint.